Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **CYNLLUN CYMORTH I NEWYDD-DDYFODIAID 2012-13: CYMERADWYO TALIADAU GRANT O GYLLIDEB YESS** |
| **DYDDIAD** | **31 MAI 2012** |
| **GAN** | **ALUN DAVIES, Y DIRPRWY WEINIDOG AMAETHYDDIAETH, BWYD, PYSGODFEYDD A RHAGLENNI EWROPEAIDD** |

Hoffwn hysbysu Aelodau'r Cynulliad fy mod i wedi cytuno i ryddhau'r gyllideb ar gyfer trydedd flwyddyn y cynllun cymorth i newydd-ddyfodiaid (YESS). £1.705 miliwn fydd cyllideb y cynllun eleni hefyd.

Roedd cryn ddiddordeb yn nhrydedd flwyddyn y cynllun ac roedd safon y prosiectau a gynigiwyd yn uchel iawn. Mae llythyron cynnig wedi eu cyhoeddi, ac ar ôl cadarnhau'r cytundebau, caiff manylion llawn eu rhoi ynghylch nifer y ceisiadau llwyddiannus.

Mae'r cymorth parhaus ar gyfer y cynllun hwn yn dangos ymrwymiad y Llywodraeth i gefnogi entrepreneuriaeth yr ifanc a newid rhwng y cenedlaethau, er mwyn helpu i sicrhau dyfodol llewyrchus i amaethyddiaeth Cymru.

Hoffwn hysbysu'r Aelodau bod Gwobr Goffa Brynle Williams i gydnabod cyfraniad ein cyn gyd-Aelod at amaeth Cymru, fel Aelod y Cynulliad ac fel ffermwr, i’w gynnal eto eleni. Caiff enillydd y wobr flynyddol hon ei ddewis o blith ymgeiswyr llwyddiannus ail flwyddyn cynllun YESS a'i gyhoeddi yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Rwy'n meddwl ei bod yn briodol iawn bod y wobr hon yn mynd i ffermwr ifanc gan ei fod yn adlewyrchu cymorth cadarn parhaus Brynle i ddiwydiant amaethyddol Cymru a'i gred bod ein pobl ifanc yn gallu sicrhau dyfodol ffyniannus i'r sector ffermio yn y wlad hon.